

# Awdurdod Parc Cenedlaethol

30 Mawrth 2022

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd Mrs S Hoss adeg ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol (gweler Cofnod 3); Ymunodd y Cynghorydd R Owens â'r cyfarfod yn dilyn cyhoeddiadau'r Cadeirydd (gweler Cofnod 5).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.40am; 11.50am – 1.20pm)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd M Williams.

## 2. Datgan Buddiannau

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus gan Dr R Plummer mewn perthynas ag adroddiadau 10/22, 11/22 a 12/22.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.

## 4. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd, er bod cyfyngiadau Covid wedi'u llacio, prin oedd y digwyddiadau wyneb yn wyneb a fynychwyd ganddo. Serch hynny, roedd wedi cymryd rhan mewn taith gerdded gylchol o amgylch Carningli gyda'r Prif Weithredwr a Chadeirydd Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r Parc. Ymhlith y cyfarfodydd a fynychwyd ganddo oedd y Cyngor Partneriaeth a drefnwyd gan Rebecca Evans AoS a Julie James AoS, Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, trafodaeth Panel Cyngor y Parciau Cenedlaethol, a chyfarfod byr o'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Dywedodd bod nifer o gyfarfodydd oedd wedi'u trefnu gyda'r Gweinidog Julie James AoS wedi gorfod cael eu gohirio. Ymhlith y digwyddiadau eraill oedd darlith rithiol gan



Archeolegydd yr Awdurdod ar droseddau treftadaeth, a mynychu'r arddangosfa "Ar eich Stepen Drws" yn Oriel y Parc yr oedd yn ei chanmol yn fawr. Ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, roedd hefyd wedi cynnal Adolygiad o Berfformiad y Prif Weithredwr. Yn olaf dywedodd ei fod wedi gwrandao ar sgwrs y Prif Weithredwr gyda Beti George ar Radio Cymru, rhaglen a ddisgrifiodd fel fersiwn Cymru o Desert Island Discs.

## **Nodwyd.**

### **6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 a 7 Chwefror 2022;
- (ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021;
- (iii) Y Pwyllgorau Ieuencid a gynhaliwyd ar 11 Ionawr ac 8 Chwefror 2022;
- (iv) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022;
- (v) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022; a'r
- (v) Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.

Roedd yr Aelodau'n bryderus bod y niferoedd sy'n mynychu'r Pwyllgor Ieuencid i'w gweld yn gostwng ac yn dymuno anfon eu diolch i'r tîm Ieuencid - yn staff ac yn bobl ifanc - am bopeth yr oeddent yn ei wneud, gan ychwanegu ei bod yn bwysig parhau i ymgysylltu â hwy. Atebodd Mrs S Hoss, sef prif gynrychiolydd yr Awdurdod ar y Pwyllgor, ei bod o'r farn bod yr ymgysylltu yn dda, gyda llawer o weithgareddau eraill yn cael eu cyflawni drwy'r Parcmyn Ieuencid a grwpiau gwirfoddol eraill. Roedd y swyddogion yn edrych ar ffyrdd diddorol o gynyddu cyfranogiad pobl ifanc yng ngwaith yr Awdurdod.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

### **7. Rhybudd o Gynnig**

Dywedodd y Cadeirydd bod y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd P Kidney "bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartion â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu maes chwarae i blant" wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn eu cyfarfod yn ddiweddar. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Pwyllgor wedi gofyn i'r swyddogion drafod y cynnig gyda Chyngor Cymuned Llandyfái er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u cynlluniau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Byddai



argymhelliad wedyn yn cael ei wneud i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd Kidney ei fod yn hapus â'r trefniadau a awgrymwyd.

**Nodwyd.**

## **8. Cynllun Corfforaethol 2022/23**

Dywedwyd bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2022/23 yn nodi Amcanion a Datganiad Llesiant Corfforaethol yr Awdurdod, ei gamau tuag at gyrraedd yr amcanion hynny, a'r modd y byddai'n gweithredu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dywedwyd nad oedd bellach yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu cynlluniau gwella blynyddol, oedd yn ofynnol yn flaenorol yn y Mesur Llywodraeth Leol, a bod hyn yn gyfle i gymryd ymagwedd o'r newydd at y cynllun.

Roedd drafft o'r Cynllun wedi'i gyflwyno gerbron cyfarfod mis Chwefror o'r Awdurdod i gael sylwadau, ac roedd hefyd wedi bod yn destun ymgynghori â'r staff ar draws yr Awdurdod. Roedd diwygiadau wedi'u gwneud o ganlyniad i'r broses hon, ac roedd y Cynllun bellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo. Ynghlwm i'r ddogfen roedd yr ymatebion allanol a dderbyniwyd ar yr Amcanion Llesiant, oedd wedi bod yn destun ymgynghori ddechrau 2022; y modd yr oedd yr amcanion yn cysylltu â gweledigaeth y Genhedlaeth Nesaf (Pwyllgor Ieuencid/ Parcmy'n Ieuencid) ar gyfer y Parc Cenedlaethol; a chrynodeb o'r Asesiad Integredig ar gyfer y Cynllun.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad rhagorol ac am gymryd i ystyriaeth yr awgrymiadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol. Roeddent o'r farn bod y Cynllun yn clustnodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Amcanion, a nodwyd y byddai datblygu'r Cynlluniau Cyflawni yn cefnogi hyn ymhellach.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau ynghylch gwaith gyda gwirfoddolwyr sydd ag anableddau corfforol a meddyliol, atebodd y Prif Weithredwr y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fwrw ymlaen â gwirfoddoli ar draws yr Awdurdod ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol 2022/23, gan gynnwys amcanion Llesiant diwygiedig yr Awdurdod.

## **9. Ymateb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ymgynghoriadau ar y prosiect Fferm Wynt Arnofiol Erebus yn y Môr Celtaidd**

Dywedwyd bod "Prosiect Erebus" yn fferm wynt arnofiol ar y môr i'r de orllewin o'r Parc Cenedlaethol yn y Môr Celtaidd. Roedd Blue Gem Wind



Ltd (yr Ymgeisydd), wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu ar y môr, a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y seilwaith trawsyrru cysylltiedig ar y tir. Fel proses statudol ar wahân, roedd yr Ymgeisydd hefyd wedi gwneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am Drwydded Forol ar gyfer y prosiect hwn.

Roedd y Prosiect yn cynnwys hyd at ddeg Cynhyrchydd Tyrbinau Gwynt gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu hyd at 100 MW. Byddai pob Cynhyrchydd yn cael ei leoli ar lwyfan arnofiol rhannol dan ddŵr gyda system angori ac ystod o opsiynau sylfaen. Byddai'r cebl allforio ar y môr, hyd at 49 km o hyd, yn cysylltu'r ardal arae â'r lanfa ym Mae Gorrlewin Angle, Sir Benfro. Roedd y Prosiect hefyd yn cynnwys cebl allforio ar y tir ac is-orsaf ar y tir, a leolir y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, yn agos at Orsaf Bŵer bresennol Penfro.

Dywedwyd bod y rhain yn ddatblygiadau arwyddocaol yr ymgynghorir arnynt â'r Awdurdod. Roedd swyddogion wedi drafftio ymateb i'r cais am Drwydded Forol ac i'r cais am ganiatâd Adran 36 oedd ynghlwm i'r adroddiad. Gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ar yr ymatebion a gofynnwyd iddynt gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol ac i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc gwblhau'r ymatebion ar y sail nad oedd yr Awdurdod yn gwrthwynebu'r prosiect ond ei fod yn codi pryderon.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod ymateb wedi dod i law ers ysgrifennu'r adroddiad oddi wrth Ecolegydd yr Awdurdod oedd yn croesawu'r mesurau lliniaru arfaethedig ar y tir ond oedd yn mynegi pryderon y gallai'r elfen ar y môr arwain at wrthdrawiadau ag adar y môr, a gofynnodd am i hyn dderbyn sylw. Awgrymwyd y byddai hefyd angen monitro cynhwysfawr. Cynigiwyd ymgorffori'r sylwadau hyn yn ymateb yr Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyniad trylwyr a chlir. Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r ymatebion a nodwyd, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu ynni adnewyddadwy. Codwyd nifer o bwyntiau ychwanegol o ran yr effeithiau ar adar mudol oedd yn ased amgylcheddol a thwristaidd, ac o ran bywyd morol gan gynnwys pysgod a mamaliaid morol yn ogystal â golau o longau gwasanaeth a seilwaith arall. Hefyd ystyriwyd y dylid ceisio buddion i'r economi leol drwy gyflogi pobl leol.

Eglurodd y swyddogion, er eu bod wedi ceisio cyngor cyfreithiol, eu bod yn ansicr a fyddai'n bosibl ei gwneud yn ofynnol i wella'r dirwedd drwy Gytundeb A106 gan mai mecanwaith y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref oedd hwn, yn hytrach na'r system trwyddedu morol; mater i'r penderfynwr



hefyd fyddai ceisio bond i sicrhau bod yr offer yn cael ei symud unwaith y byddai'n peidio â bod yn weithredol.

Tra'n cefnogi'r argymhelliad awgrymodd un Aelod y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith bod gan yr Awdurdod bryderon. Eglurodd y swyddogion, er bod pryderon sylweddol ynghylch y datblygiad, bod yn rhaid i'r Awdurdod fod yn glir yn ei ymateb a oedd yn gwrthwynebu ai peidio, gan y byddai gwrthwynebiad yn sbarduno ymchwiliad cyhoeddus. Cytunodd yr Aelodau nad oedd yn briodol mynegi eu pryderon fel gwrthwynebiad i'r cynnig. Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad, er nad oedd pob Aelod yn gefnogol i'r cynigion o ystyried y byddai'r tyrbinau yn cael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol ac yn awgrymu y gallai'r trigolion lleol groesawu ymchwiliad cyhoeddus.

**Penderfynwyd** dirprwyo'r gwaith terfynol o lunio ymateb yr Awdurdod i Cyfoeth Naturiol Cymru ac i'r corff Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc, gan nodi NAD OEDD Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn GWRTHWYNEBU'R prosiect.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Evans a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.40am a 11.50am]*

#### **10. Prynu Tir fel rhan o Gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Atafaelu Carbon y Parc Cenedlaethol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod cyllid o Gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo fis Mehefin 2021 i gefnogi nifer o gynigion ar gyfer datgarboneiddio yn y Parc Cenedlaethol. Roedd y cynnig, '*dolydd coetir cymunedol*' wedi'i gymeradwyo gyda chyllideb o £69,300 ynghyd â £7,700 tuag at y costau rheoli / cyflawni, a'r gwaith i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

Nod y cynnig oedd cefnogi dal a storio carbon a chynyddu bioamrywiaeth drwy gynyddu'r arwynebedd o dir sydd o dan reolaeth ffatriol barhaus at ddibenion y Parc Cenedlaethol drwy fod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn prynu tir. Nodwyd bod ehangu coetir yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU ac i Lywodraeth Cymru ac yn ffordd effeithiol o ddal a storio carbon. Fodd bynnag, roedd y cyfle i greu coetir newydd neu hyd yn oed ymestyn coetir yn gyfyngedig yn y Parc Cenedlaethol gan fod llawer o'r tir yn cael ei amaethu neu eisoes o werth arall i gynefinoedd. Roedd swyddogion o'r farn mai strategaeth briodol o ddal a storio carbon ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwn felly oedd diogelu ac adfer ystod eang o gynefinoedd, megis dolydd coed.



Roedd safle addas o 2.84ha o ddolydd coetir bellach wedi'i glustnodi fyddai'n golygu cysylltiadau da rhwng cynefinoedd bywyd gwyllt, ac yn sicrhau mynediad diogel i'r gymuned, a chyfleoedd gwirfoddoli, a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r cynnig i brynu'r tir. Oherwydd yr oedi cyn gwario'r cyllid, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf. Fodd bynnag nid oedd y swyddogion yn disgwyl y byddai angen estyniad hir.

Er bod un Aelod wedi mynegi'r farn na ddylai'r Awdurdod fod yn prynu tir, roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau yn gefnogol, ac o'r farn bod hyn yn ategu nodau'r Awdurdod o ddatgarboneiddio, bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Codwyd cwestiynau ynghylch pris y tir, a gofynnwyd a oedd yn rhoi gwerth am arian o ystyried yr adenillion cymdeithasol o'r buddsoddiad a gwerth cadwraeth ehangach, a hefyd yr angen i gyfleu manteision y safle i'r cyhoedd ar ôl i'r prynu ddigwydd. Rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai asesiad annibynnol o werth y tir yn cael ei sicrhau cyn ei brynu.

**Penderfynwyd** dirprwyo'r gwaith o fwrw ymlaen â phrynu darn addas o ddolydd coetir i'r Prif Weithredwr drwy ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod.

#### **11. Caffael Astudiaethau ar Waelodlin Carbon Tirweddau Dynodedig**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod fis Mehefin 2021 wedi cymeradwyo atal Rheolau Sefydlog Contractio 2020 mewn perthynas â dyfarnu contract i Small World Consulting ar gomisiynu Archwiliadau Carbon. Rhoddodd yr Aelodau ganiatâd i'r Awdurdod reoli prosiect ar ran yr 8 Tirwedd Dynodedig yng Nghymru (3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a 5 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) i wneud Asesiadau o Waelodlin Carbon pob un o'r Tirweddau Dynodedig. Y gyllideb ar gyfer y prosiect cyfan oedd £110,000 a sicrhawyd yr arian o'r elfen gydweithredol o'r grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er bod y papur gwreiddiol yn gofyn am ganiatâd ar gyfer contract gyda Small World Consulting am £60,000, dylai'r gost wirioneddol fod wedi bod yn £82,000. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr am y camgymeriad.

**Penderfynwyd** cynyddu'r cyllid mewn perthynas â chomisiynu Archwiliadau Carbon ar gyfer yr wyth Tirwedd Dynodedig fel y nodir yn yr adroddiad.

#### **12. Tâl Aelodau 2022/23**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gorchwyl Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd Adroddiad Blynyddol terfynol



y Panel ar gyfer 2022/23 bellach wedi'i gyhoeddi, a nodwyd y prif argymhellion sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn; byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2022.

Nodwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi pennu'r lefelau o Gyflogau Sylfaenol ac Uwch y cyfeirir atynt yn yr adroddiad; ni all yr Awdurdod amrywio'r lefelau hyn. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi fyddai'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog yn 2022/23, gyda'r cyfyngiad blaenorol o bedwar Uwch Gyflog y gellid eu talu wedi'i ddileu. Roedd tair swydd yn cael eu talu ar hyn o bryd; swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Gofynnodd un Aelod a oedd unrhyw gam ymlaen wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â sefyllfa treth Aelodau Llywodraeth Cymru o ran ad-dalu treuliau. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd ganddo unrhyw ddiweddariad, ond fodd bynnag y byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yn y dyfodol agos ac y byddai'n gofyn iddynt a oeddent wedi gallu bwrw ymlaen â'r mater hwn.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swyddi hynny sydd i dderbyn tâl Uwch Gyflog yn aros fel y maent ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cynigiwyd gwelliant y dylid talu Uwch Gyflog hefyd i'r swyddi Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol, ac i Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac eiliwyd hyn. Dywedwyd mai pwrpas talu Aelodau oedd annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, a barnwyd y byddai talu Uwch Gyflogau ychwanegol yn ategu'r nod hwnnw.

Mynegodd rhai o'r Aelodau sy'n cyflawni'r rolau hynny ar hyn o bryd y farn nad oedd lefel y gwaith ychwanegol yn ddigon i gyfiawnhau talu Uwch Gyflog. Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud penderfyniad o'r fath fel rhan o ystyriaethau cyllidebol ehangach.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ond collwyd y bleidlais. Pleidleisiwyd wedyn ar y cynnig gwreiddiol bod y swyddi sydd i dderbyn Uwch Gyflog yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd, ac enillwyd y bleidlais hon.

**Penderfynwyd:**

- a) Nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.
- b) Bod y swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn derbyn Uwch Gyflog.

**13. Cynnal Cyfarfodydd yr APC: Opsiynau Lleoliad yn ystod Ailddatblygu'r Ystafell Gyfarfod**



Atgoffwyd yr Aelodau, ar ôl ystyried adroddiad yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Mehefin 2021 ynghylch ei bod yn ofynnol i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bod swyddogion wedi cael y dasg o lunio opsiynau am ystafell gyfarfod newydd ac, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021, penderfynwyd newid yr ystafell bresennol yn gyfan gwbl. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, ac awydd cryf yr Aelodau i ddychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, rhaid oedd ystyried opsiynau ar gyfer cynnal cyfarfodydd APC tra bod yr ystafell gyfarfod bresennol allan o gomisiwn.

Roedd yr Aelodau wedi awgrymu'n flaenorol y gellid parhau i gynnal cyfarfodydd o bell ac eithrio cyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu nes bod yr ystafell gyfarfod newydd ar gael, ac roedd yr adroddiad wedi'i baratoi ar sail hynny. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau'r trefniant hwn.

Yn yr adroddiad amlinellwyd tri lleoliad arall y gellid eu hystyried – yr Ystafell Ddarganfod a'r Ystafell Dewi Sant gyfagos yn Oriol y Parc; y Siambr Gyfarfod/Ystafell Pwyllgorau yng Nghyngor Sir Penfro; a'r Neuadd Pater, Doc Penfro. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch pa leoliad i'w ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd, yn amodol ar lunio asesiad risg addas, tra bod yr ystafell gyfarfod bresennol yn cael ei hailddatblygu. Gofynnwyd iddynt hefyd gytuno i barhau i ffrydio cyfarfodydd yn fyw.

Yn y cyfarfod, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, er bod maint y lled band yn Neuadd Pater yn dal heb fod yn glir, y byddai'r amharu ar waith y Tîm TG a'r risg o symud yr offer i'r lleoliad bob tro, yn gwneud hwn yn opsiwn anymarferol. Fodd bynnag, roedd ymateb wedi dod i law oddi wrth Cyngor Sir Penfro oedd yn nodi bod costau defnyddio'u cyfleusterau yn fras fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, ond roedd eu Tîm TG yn dal i ystyried yr opsiynau ar gyfer ffrydio cyfarfodydd yr Awdurdod hwn yn fyw drwy ei Sianel YouTube ei hun.

Hefyd eglurodd y swyddogion ei bod bellach yn ofynnol i'r Awdurdod ddarparu ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml-leoliad, felly roedd rhaid i unrhyw leoliad a ddefnyddir i gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb fod â'r gallu i Aelodau ymuno o bell. Byddai hyn yn cyfyngu ar y lleoliadau y gellid cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.

O ran yr elfen ffrydio byw o'r argymhellion, roedd yr Aelodau yn hapus y dylai hyn barhau, fodd bynnag mynegwyd pryder ynghylch y cyfnod amser o 6 blynedd ar gyfer cadw'r recordiadau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd mai ffigur mympwyol oedd y 6 blynedd, gan fod gwahanol Awdurdodau yn cadw eu recordiadau am





gyfnodau gwahanol o amser. Awgrymwyd y dylid cadw'r recordiadau yn unol â pholisi'r Awdurdod o gadw data.

Yn olaf, o ran lleoliad, awgrymodd un Aelod y dylai'r swyddogion archwilio'r cyfleusterau sydd ar gael yn Neuadd Regency Saundersfoot gan ei fod o'r farn y byddai'r neuadd hon yn bodloni'r holl feini prawf, gyda'r fantais o leoliad ymhellach i'r dwyrain, allai leihau'r costau teithio. Barnai'r Aelodau eraill, er bod cyswllt dibynadwy yn hanfodol, y byddai'n well peidio ag ymrwymo i gcontractau sefydlog gyda sefydliadau eraill. Felly defnyddio Oriel y Parc oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan lawer o'r Aelodau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr adroddiad ond yn gofyn am farn yr Aelodau ar y lleoliad i'w ddefnyddio, a gan mai penderfyniad gweithredol oedd hwn, swyddogion fyddai'n dod i benderfyniad gan ystyried safbwyntiau'r Aelodau, ac yn amodol ar asesiad risg.

**Penderfynwyd :** \_

- a) Bod yr Awdurdod yn parhau i ffrydio'n fyw a recordio cyfarfodydd, a bod y recordiadau yn cael eu cadw ar wefan yr Awdurdod yn unol â'i bolisi ar gadw data; a
- b) Bod pob cyfarfod, ac eithrio cyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn parhau i gael eu cynnal o bell.

#### **14. Gair o ddiolch**

Ailddatganodd y Cadeirydd ei fwriad i beidio â sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol oedd ar fin cael eu cynnal, felly hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd yr Awdurdod. Dywedodd mai anrhydedd a braint oedd gwasanaethu yn y swyddogaeth honno, a hefyd fel Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru a Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU, a chynrychioli'r Awdurdod ar nifer o wahanol gyrff. Er bod cyfyngiadau COVID wedi golygu mai cyfyngedig fu ei bresenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus, canmolodd ymateb yr Awdurdod i'r pandemig a barnai bod y cyfnod wedi amlygu gwerth y Parc Cenedlaethol i'r cyhoedd. Wedi cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro fis Medi diwethaf i ddathlu hanner can mlynedd ers agor y Llwybr, diolchodd i bawb oedd wedi ei gefnogi yn yr ymdrech honno. Yn olaf, roedd yn ddiolchgar i drigolion Trefdraeth am ei ethol yn Gynghorydd Sir, i'r Cynghorydd Mrs D Clements am ei chefnogaeth fedrus fel Dirprwy Gadeirydd, ac i'r holl gyn Aelodau a'r Aelodau presennol am safon eu dadleuon, am eu doethineb a'u hiwmor. Roedd hefyd yn dymuno diolch i swyddogion yr Awdurdod, yn enwedig y Tîm Gwasanaethau Democrataidd, ac i'r Prif Weithredwr am ei gefnogaeth, ei wybodaeth o'r Awdurdod a rôl yr Awdurdod yn y gymuned.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle wedyn i unrhyw Aelod arall nad oedd yn sefyll etholiad i ddweud ychydig eiriau, a chymerodd y Cynghorydd P Baker a'r Cynghorydd K Doolin y cyfle hwnnw i ddiolch i'r swyddogion ac



i'r Aelodau ac i ddweud gymaint o fraint oedd gwasanaethu ar yr Awdurdod a gweithio gyda staff mor ymroddgar a brwdfrydig.

Siaradodd y Dirprwy Gadeirydd ar ran yr holl Aelodau wrth ddiolch i'r Cadeirydd am ei ymrwymiad a'i degwch ac am y gefnogaeth bersonol, yr amynedd a'r caredigrwydd a ddangoswyd ganddo. Dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a'r Prif Weithredwr eu diolch a'u dymuniadau gorau i'r rhai oedd yn ymddeol a phob lwc i'r rhai oedd yn ceisio cael eu hail-ethol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 heb eu diwygio.

